



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT

Gorchymyn Moch (Cofnodion, Nodi a Symud) (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2)
2002 OS 2002 Rhif 2303 (W.228)

Mae'r gorchymyn hwn yn cynnwys gofynion manwl sy'n disodli dros dro y rhai yng Ngorchymyn Moch (Cofnodion, Nodi a Symud) 1995.

Rheol Sefydlog 11.5

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn hwn ar y sail bod anghysondeb rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg lle yr ymddengys ei fod wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol yn y Gymraeg.

Yn erthygl 3(1) mae'r testun Saesneg yn defnyddio'r gair "keeper" a ddiffinnir yn erthygl 2(1) ond nid yw'r testun Cymraeg yn defnyddio'r gair diffiniedig "ceidwad". O ganlyniad nid oes bwriad amlwg yn y testun Cymraeg i gorffori'r union ystyr a roddir yn y diffiniad.

Cyflwynwyd sylwadau ar ran y Gweinidog i'r perwyl canlynol:

1. Gan mai dim ond tan 31 Ionawr 2003 fan bellaf y bydd y ddeddfwriaeth mewn grym, gellir ymdrin â'r pwynt hwn mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd.
2. Nid oes fawr o wahaniaeth rhwng y diffiniad a'r disgrifiad a ddefnyddir mewn gwirionedd ond bwriedir ystyried pa un a yw'r gwahaniaeth yn debygol o gael unrhyw effaith ar y rhai sy'n gweithredu'r broses, i'r graddau ag y bo'n briodol cymryd camau unioni ynghynt.

Sylwadau

Mae ffurflenni penodedig yn Atodlenni 1 a 2 yn rhannol mewn fformat dwyieithog tudalen lled llawn ac yn rhannol mewn fformat dwy golofn. Deellir mai'r bwriad yw pennu un ffurf

gwbl ddwyieithog. Dyma'r hyn a ddisgwyliid mewn dogfennau cofnodi/trwyddedu y mae angen iddynt fod ar gael i'w harchwilio ac i gyfeirio atynt. Fodd bynnag, awgrymir y byddai wedi bod yn ddymunol pe bai'r gorchymyn wedi egluro mai un ddogfen gwbl ddwyieithog a bennir er mwyn osgoi'r dybiaeth bod y rhan o'r ffurflen sydd ar ffurf dwy golofn yn pennu testunau amgen.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

15 Hydref 2002